

Adroddiad ar Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (lle rhoddwyd rhybudd)

LaserWise Skin and Beauty Clinic,
Caerdydd

Dyddiad yr arolygiad: 08 Ionawr 2026

Dyddiad cyhoeddi: 10 Ebrill 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:


- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	12
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	15
4.	Y camau nesaf	17
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	18
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	19
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	23

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o LaserWise Skin and Beauty Clinic, 202 Heol yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 3NB ar 08 Ionawr 2026.

Cynhaliwyd yr arolygiad gan ddau arolygydd gofal iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 15 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Roedd LaserWise Skin and Beauty Clinic yn cynnig profiad cadarnhaol i gleifion mewn amgylchedd cyfforddus. Dywedodd pob un o'r cleifion a atebodd y cwestiwn yn holiadur AGIC fod y gwasanaeth yn dda iawn.

Roedd cleifion yn cael ymgynghoriad llawn a gwybodaeth briodol cyn y driniaeth. Cawsom sicrwydd bod cleifion yn cael digon o wybodaeth am eu triniaeth i'w galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus. Gwelsom fod cofnodion cleifion yn cael eu rheoli'n dda a'u bod yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol.

Gwelsom fod y clinig yn amgylchedd cynhwysol ac yn hygyrch i gleifion ag anawsterau symudedd ar y cyfan, gyda mynediad i ddefnyddwyr cadair olwyn i ddwy ystafell drin.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Trwsio'r clo diffygiol ar ddrws yr ystafell drin
- Datblygu polisi cydsynio addas sy'n cynnwys triniaethau i gleifion o dan 16 oed a lle nad oes gan glaf y galluedd i gydsynio
- Dylai'r staff gwblhau hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Ymgynghoriadau cynhwysfawr sy'n cynnwys esboniad o risgiau a manteision y driniaeth
- Roedd ffurflen gydsyniad yn cael ei llofnodi yn ystod pob apwyntiad ar gyfer triniaeth
- Gofynnir am adborth gan gleifion drwy'r llwyfan trefnu apwyntiadau ar-lein ar ôl iddynt gael triniaeth.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Yn ôl pob golwg, roedd y clinig yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac roedd yn cynnwys cyfarpar addas i ddarparu'r gwasanaethau y mae wedi'i gofrestru i'w darparu.

Gwelsom fod Profion Dyfeisiau Cludadwy ac archwiliadau o'r gosodiadau nwy wedi cael eu cynnal, a bod trefniadau wedi'u gwneud i'r Adroddiad ar Gyflwr Gosodiadau Trydanol gael ei gynnal yn fuan ar ôl yr arolygiad. Gwelsom fod un o'r allanfeydd

tân wedi'i rhwystro gan eitemau a oedd yn cael eu storio, a chafodd yr allanfa hon ei datgomisiynu fel allanfa frys ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Roedd Cynghorydd Diogelu rhag Laserau penodedig, Rheolau Lleol cyfredol ac asesiad risg ar waith. Roedd y protocolau meddygol yn gyfredol ac ar gael yn hwylus. Roedd y peiriannau laser a Goleuni Pwls Dwys (IPL) yn cael eu gwasanaethu'n briodol. Er bod cyfarpar amddiffyn y llygaid digonol ar gael, roedd rhai o'r setiau sbâr wedi cracio a chafwyd gwared arnynt ar unwaith i'w hatal rhag cael eu defnyddio ar ddamwain.

Er bod prosesau diogelu ar waith, roedd angen diwygio'r manylion cyswllt yn y polisi. Hefyd, roedd hyfforddiant rhai aelodau o'r staff ar ddiogelu wedi dod i ben yn ddiweddar ac roedd angen iddynt gwblhau'r hyfforddiant diweddaraf.

Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Rhoi tystiolaeth i AGIC o'r camau a gymerwyd i ddatrys pob mater a godwyd yn yr asesiad risg tân
- Dylai pob aelod o'r staff gwblhau hyfforddiant priodol ar ddiogelwch tân
- Sicrhau y caiff ymarferion tân eu cynnal yn rheolaidd a'u cofnodi mewn cofnodlyfr.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith wedi'u nodi yn [Atodiad B](#).

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai'r staff gwblhau hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau hyd at y lefel briodol
- Roedd angen diwygio'r polisi diogelu i gynnwys manylion cyswllt perthnasol y tîm diogelu oedolion agored i niwed lleol
- Dylai'r staff gwblhau hyfforddiant ar ddiogelu hyd at y lefelau priodol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y safle yn ymddangos yn lân iawn ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda
- Disgrifiwyd prosesau atal a rheoli heintiau da ac roeddent yn amlwg
- Roedd prosesau priodol ar waith i sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cadw'n ddiogel.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Caiff LaserWise Skin and Beauty Clinic ei redeg gan y rheolwr cofrestredig, ynghyd â rheolwr y clinig a thîm bach o staff. Roedd yswiriant atebolrwydd cyflogwyr dilys

ar waith ac yn cael ei arddangos. Roedd amrywiaeth o bolisiâu i helpu'r staff i gyflawni eu dyletswyddau, ond roedd rhai ar goll ac nid oedd rhai eraill yn cynnwys system rheoli fersiynau ddigonol.

Roedd gweithdrefn gwyno ar waith a oedd yn cynnwys amserlenni addas ar gyfer cydnabod cwynion a'u datrys. Er nad oedd cyfeiriadau at wasanaethau eirioli i ddechrau, cafodd hyn ei ychwanegu yn fuan ar ôl yr arolygiad.

Gwelsom fod prosesau priodol ar waith ar gyfer recriwtio a sefydlu staff, a bod gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith ar gyfer pob aelod o'r staff a gyflogir yn y clinig. Roedd y clinig yn cynnal arfarniadau blynyddol ac roedd anghenion hyfforddi a datblygu'r staff yn cael eu monitro a'u trafod.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod pob polisi yn cynnwys system rheoli fersiynau briodol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Prosesau recriwtio a sefydlu da
- Tystiolaeth o hyfforddiant perthnasol ychwanegol a gwblhawyd.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y lleoliad i ddsbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau a ddarperir yn y clinig. Cawsom gyfanswm o 15 o holiaduron wedi'u cwblhau. Ni wnaeth rhai cleifion ateb pob cwestiwn, a nododd y rhan fwyaf ohonynt eu bod wedi ymweld o fewn y ddeufis diwethaf. Dywedodd pawb a atebodd y cwestiwn yn holiadur AGIC fod y gwasanaeth yn dda iawn.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Clinig ardderchog a staff gwych."

"Bob amser yn lân ac yn groesawgar. Mae'r staff yn broffesiynol iawn. Mae'r staff wedi'u hyfforddi'n dda yn ôl pob golwg, gan fod unrhyw gwestiwn sydd gennyf yn cael ei ateb bob amser."

"Mae'r salon bob amser yn lân iawn ac yn fodern. Mae'r staff yn broffesiynol ac yn drylwyr iawn. Rwy'n teimlo'n gyfforddus ac wedi ymlacio pan fyddaf yn ymweld. Rwy'n fodlon iawn ar y triniaethau a'r gwasanaeth bob amser."

Urddas a pharch

Roedd gan y clinig dair ystafell laser a thriniaeth IPL ar lawr gwaelod y clinig. Roedd ymgynoriadau â chleifion yn cael eu cynnal yn yr ystafelloedd trin er mwyn sicrhau cyfrinachedd. Roedd dillad isaf papur a thywelion untro ar gael i gleifion eu defnyddio yn ystod triniaethau i ddiogelu eu hurddas. Roedd drysau y gellir eu cloi ar yr ystafell drin, lle y gallai'r cleifion newid yn breifat. Fodd bynnag, gwelsom mai dim ond o'r tu allan yr oedd y clo ar un o'r drysau yn gweithio.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig drwsio'r clo ar ddrws yr ystafell drin i sicrhau bod modd ei gloi o'r tu mewn pan fydd yr ystafell yn cael ei defnyddio.

Roedd y practis wedi'i gofrestru i roi triniaethau i gleifion 13 oed a throsodd. Gwelsom bolisi ar gyfer pobl o dan 16 oed a oedd yn esbonio'r trefniadau ar gyfer ymgynghori a thriniaeth a'r gofyniad i riant neu warcheidwad cyfreithiol fod yn bresennol a rhoi cydsyniad. Gallai cleifion gael hebryngwr yn bresennol yn unol â'u dymuniadau, ond nid oedd gan y practis bolisi hebryngwyr ar waith. Drafftwyd polisi addas a rhoddwyd copi ohono i AGIC yn fuan ar ôl yr arolygiad.

Dyweddod pawb a atebodd holiadur AGIC eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch a'u bod yn teimlo bod mesurau wedi'u cymryd i ddiogelu eu preifatrwydd.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dyweddwyd wrthym fod y staff yn y clinig yn gallu siarad Cymraeg a nifer o ieithoedd eraill. Roedd gan y clinig wefan a oedd yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am y gwasanaethau a gynigir yn y clinig, gan gynnwys gwybodaeth am amrywiaeth eang o gyflyrau croen. Roedd copiau o'r canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben ar gael yn nerbynfa'r clinig ac roeddent yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Dim ond mewn fformat safonol yr oeddent ar gael, ond gellid eu hargraffu mewn print bras pe bai angen.

Roedd amrywiaeth o opsiynau ar gael i gleifion wneud apwyntiadau gan gynnwys wrth y dderbynfa, dros y ffôn, drwy e-bost neu drwy wefan y clinig. Roedd hyn yn golygu y gallai'r rhai heb fynediad digidol drefnu ymgynghoriadau a thriniaethau.

Roedd rhestrau prisiau'r clinig ar gael ar y safle ac ar y wefan.

Gwybodaeth i gleifion a chydysniad cleifion

Gwnaethom ofyn am gael gweld y gofrestr triniaethau fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau, a gwelsom fod y manylion angenrheidiol am driniaethau a pharmedrau cyfarpar wedi'u cofnodi'n glir. Gwelsom fod hyn yn cysylltu'n effeithiol â nodiadau'r cleifion a oedd yn cael eu cadw ar system rheoli cofnodion ddigidol y clinig.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion pum claf a gwelsom fod dynodyddion cleifion addas yn cael eu defnyddio. Roedd tystiolaeth bod hanes meddygol cleifion yn cael ei wirio a bod unrhyw newidiadau posibl yn cael eu gwirio yn ystod pob apwyntiad dilynol. Gwnaethom gadarnhau bod pob claf yn rhoi cydsyniad wedi'i lofnodi. Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad, ni allai'r rheolwr cofrestredig roi polisi cydsynio ysgrifenedig i ni.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddatblygu polisi cydsynio ysgrifenedig addas, yn cynnwys gweithdrefnau ar gyfer cleifion o dan 16 oed a lle nad oes gan glaf y galluedd i gydsynio a rhoi copi i AGIC pan fydd wedi'i gwblhau.

Cynllunio a darparu gofal

Roedd pob claf yn cael ymgynghoriad llawn cyn cytuno i unrhyw driniaethau. Roedd hyn yn cynnwys trafodaeth am yr opsiynau o ran triniaeth ynghyd â'r risgiau a'r manteision cysylltiedig, a'r canlyniadau disgwyliedig. Dywedwyd wrthym y byddai dyfynbris cynhwysfawr yn cael ei ddarparu i bob claf ar ôl yr ymgynghoriad, a bod taflenni gwybodaeth ôl-ofal yn cael eu darparu i bob claf. Cawsom sicrwydd

bod cleifion yn cael digon o wybodaeth i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth am eu triniaeth.

Dywedwyd wrthym fod pob claf yn cael prawf croen 48 awr cyn dechrau cwrs o driniaeth, a gwelsom dystiolaeth o hyn yng nghofnodion y cleifion.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Dywedwyd wrthym fod y clinig yn amgylchedd cynhwysol a bod pob aelod o staff a chlaf yn cael ei drin yn deg. Roedd gan y clinig bolisi cydraddoldeb a hawliau dynol ar waith, ond nid oedd yn cynnwys system rheoli fersiynau. At hynny, ni allai'r rheolwr cofrestredig roi unrhyw dystiolaeth i ni o hyfforddiant ar gyfer y staff yn y maes hwn.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn cwblhau hyfforddiant perthnasol ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth.

Dywedwyd wrthym y byddai hawliau dynol cleifion trawsryweddol yn cael eu parchu fel mater o drefn, ac y byddai enwau a rhagenwau a ffefrir yn cael eu defnyddio yn ôl y gofyn. Roedd mynediad gwastad i'r adeilad o'r stryd, ac roedd rhai lloriau gwastad ar y llawr gwaelod lle roedd dwy ystafell drin ar gael. Roedd rhagor o ystafelloedd trin ar gael i lawr gris i hanner arall y llawr gwaelod. Dywedwyd wrthym y gellid symud y peiriannau laser o'r lefel is i'r ystafelloedd uchaf ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn a chleifion ag anawsterau symudedd, pe bai angen.

Roedd pawb a atebodd holiadur AGIC yn cytuno nad oeddent wedi wynebu unrhyw wahaniaethu wrth gysylltu â'r gwasanaeth neu wrth ddefnyddio'r gwasanaeth.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Dywedwyd wrthym fod y lleoliad yn gofyn am adborth gan gleifion ar ôl eu triniaeth drwy lwyfan trefnu apwyntiadau ar-lein y clinig, a bod adborth hefyd yn cael ei gasglu drwy'r cyfryngau cymdeithasol neu ar lafar yn y clinig.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig fod adborth gan gleifion yn cael ei asesu a'i ddadansoddi'n barhaus. Gwelsom dystiolaeth ei bod yn cynnal adolygiad blynyddol o'r adborth fel rhan o'i gweithgareddau gwella ansawdd.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd yn ymddangos bod y safle yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, a bod mesurau diogelwch ar waith i atal mynediad heb awdurdod. Roedd y clinig yn cynnwys derbynfa ac ardal aros, gydag ystafelloedd trin ar wahân ar gyfer triniaethau laser ac IPL a'r gwasanaethau eraill a gynigir. Roedd yr ystafelloedd trin yn daclus, yn gyfforddus ac yn cynnwys digon o gyfarpar.

Gwelsom fod Profion Dyfeisiau Cludadwy wedi cael eu cwblhau'n ddiweddar, a bod tystysgrif diogelwch nwy gyfredol ar waith. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd yr Adroddiad ar Gyflwr Gosodiadau Trydanol a gaiff ei gwblhau bob pum mlynedd yn gyfredol, ond rhoddodd y rheolwr cofrestredig dystiolaeth i ddangos bod archwiliad newydd wedi'i drefnu ar gyfer yr wythnos ganlynol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi copi o'r Adroddiad ar Gyflwr Gosodiadau Trydanol i AGIC ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Gwnaethom edrych ar y rhagofalon tân yn y clinig a gwelsom fod y larymau yn cael eu gwirio'n rheolaidd a bod y diffoddwyr wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd nifer o allanfeydd tân gydag arwyddion i gyfeirio pobl iddynt, ond gwelsom fod un ohonynt wedi'i rhwystro gan focsys. Oherwydd agoswydd yr allanfeydd tân eraill, datgomisiwyd yr allanfa dân hon a thynnwyd yr arwyddion ar adeg yr arolygiad.

Cafodd ein pryder mewn perthynas â hyn ei godi gyda'r rheolwr cofrestredig. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad A](#).

Gwnaethom ofyn am gael gweld tystiolaeth bod ymarferion tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd i sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r weithdrefn i'w dilyn pe bai tân. Fodd bynnag, ni allai'r rheolwr cofrestredig ddarparu'r cyfryw gofnodion a chadarnhaodd nad oedd ymarferion yn cael eu cynnal yn aml nac yn cael eu cofnodi. Darparwyd asesiad risg tân cynhwysfawr, ond gwelsom nad oedd llawer o'r camau a argymhellwyd wedi cael eu cymryd. At hynny, gwelsom fod hyfforddiant pob aelod o'r staff ar ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân wedi dod i ben.

Ymdriniwyd â'n pryderon mewn perthynas â'r materion hyn o dan ein proses hysbysiadau diffyg cydymffurfio. Fel rhan o'r broses hon, gwnaethom ysgrifennu at y gwasanaeth ar unwaith yn dilyn yr arolygiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd camau unioni ar fyrder. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad B](#).

Roedd pecyn cymorth cyntaf yn barod i'w ddefnyddio pe byddai damwain neu anaf. Gwelsom fod un aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant cymorth cyntaf diweddaraf a gwnaethom drafod yr angen i sicrhau bod darpariaeth cymorth cyntaf briodol ar gael yn y clinig bob amser. Cwblhawyd hyfforddiant staff ychwanegol a darparwyd tystysgrifau i AGIC yn fuan ar ôl yr arolygiad.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod pob ardal yn lân yr olwg, yn daclus ar y cyfan, a bod y dodrefn a'r ffitiadau mewn cyflwr da. Nodwyd bod prosesau glanhau addas ar gyfer y cyfarpar a'r ystafelloedd trin, a bod trefniadau addas ar waith ar gyfer storio a gwaredu gwastraff a gynhyrchwyd gan y clinig yn ddiogel.

Gwelsom fod polisi atal a rheoli heintiau cynhwysfawr ar waith er mwyn helpu'r staff i roi'r prosesau glanhau cywir ar waith. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd staff y clinig wedi cwblhau hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau ar y lefel briodol a rhoi copïau o'r tystysgrifau hyfforddiant i AGIC.

Roedd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC o'r farn bod y lleoliad yn lân iawn a bod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Roedd gan y clinig arweinydd diogelu dynodedig ac roedd y canllawiau diweddaraf ar gael iddo drwy ap Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Gwelsom fod gan y clinig bolisi diogelu ar waith a oedd yn cyd-fynd â Gweithdrefnau Diogelu Cymru, ond roedd yn ymddangos bod y manylion cyswllt ar gyfer oedolion agored i niwed yn berthnasol i ardal wahanol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y polisi diogelu yn cynnwys y manylion cyswllt diogelu priodol ar gyfer yr ardal a wasanaethir.

Gwnaethom edrych ar gydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant ar ddiogelu a gwelsom fod dyddiad hyfforddiant tri aelod o'r staff wedi dod i ben yn ddiweddar.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed, a rhoi copïau o'r tystysgrifau hyfforddiant i AGIC pan fydd wedi'i gwblhau.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Gwnaethom edrych ar y peiriannau laser ac IPL a gwelsom eu bod yr un fath â'r rhai a oedd wedi'u cofrestru ag AGIC. Gwelsom dystiolaeth bod gwaith cynnal a chadw rheolaidd wedi cael ei gynnal a bod y cyfarpar laser a'r systemau yn cael eu gwirio bob dydd.

Gwelsom fod contract cyfredol ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau (LPA), a oedd wedi paratoi asesiad risg manwl ar gyfer pob un o'r ystafelloedd trin laser ac IPL. Roedd rheolau lleol cyfredol yn nodi sut i ddefnyddio'r peiriannau laser ac IPL yn ddiogel ar gael, ynghyd â phrotocolau triniaethau meddygol cynhwysfawr ar gyfer pob peiriant, a oedd wedi'u llofnodi gan ymarferydd meddygol arbenigol.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd cyfarpar amddiffyn y llygaid addas ar gael i'r cleifion a'r gweithredwyr. Roeddent yn lân ac yn ymddangos fel petaent mewn cyflwr da. Fodd bynnag, roedd dau set ychwanegol a oedd wedi cracio. Cafodd y rheolwr cofrestredig wared ar y cyfarpar llygaid a oedd wedi'i ddifrodi ar unwaith i'w atal rhag cael ei ddefnyddio.

Ymdriniwyd â'n pryder yn hyn o beth yn ystod yr arolygiad. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad A](#).

Gwelsom arwyddion priodol y tu allan i'r ystafelloedd trin i rybuddio bod peiriant laser ac IPL yn yr ystafell. Gwelsom fod trefniadau addas ar waith i ddiogelu'r peiriannau pan nad oeddent yn cael eu defnyddio.

Gwnaethom edrych ar gofnodion hyfforddiant y staff a gwelsom fod y gweithredwyr awdurdodedig wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth a hyfforddiant sy'n benodol i'r ddyfais mewn perthynas â'r peiriannau laser ac IPL yn y lleoliad.

Rheoli cofnodion

Gwelsom fod cofnodion cleifion yn cael eu cadw'n ddiogel yn y gwasanaeth ar ffurf papur ac ar ffurf ddigidol, a bod prosesau addas ar waith i atal achosion o golli data personol. Roedd cyfnodau cadw data a threfniadau gwaredu data priodol ar waith.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Caiff LaserWise Skin and Beauty Clinic ei redeg gan y rheolwr cofrestredig, rheolwr y clinig a thîm bach o staff ymroddedig. Roedd strwythur rheoli clir ar waith. Gwelsom fod tystysgrif yswiriant atebolrwydd gyfredol y cyflogwr a thystysgrif cofrestru AGIC, ynghyd â'r amodau cofrestru cysylltiedig wedi'u harddangos y glir fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Roedd amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau ar waith ac yn destun adolygiadau rheolaidd. Dywedwyd wrthym fod y staff yn cymryd rhan weithredol yn y broses o ddatblygu'r rhain a'u rhoi ar waith. Gwelsom fod mynegai polisi yn cael ei ddefnyddio i reoli'r polisiau hyn a sicrhau bod y staff wedi llofnodi a dyddio i gadarnhau eu bod wedi darllen a deall y polisiau hyn. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd prosesau rheoli fersiynau ar rai o'r polisiau, fel cydraddoldeb ac amrywiaeth, ac roedd un arall yn cynnwys manylion anghywir.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl bolisiau yn cynnwys proses rheoli fersiynau briodol sy'n gywir ac yn cynnwys dyddiadau dechrau ac adolygu, a sicrhau bod enw'r unigolyn sy'n gyfrifol am y polisi wedi'i nodi.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd gweithdrefn gwyno addas ar waith a oedd ar gael yn hwylus i'r cleifion wrth y dderbynfa. Roedd y weithdrefn hon yn cynnwys teitl yr unigolyn sy'n gyfrifol am ymdrin â chwynion ac yn nodi amserlenni addas ar gyfer cydnabod cwynion ac ymateb iddynt. Roedd manylion cyswllt ar gyfer sefydliadau eraill ar gael pe bai achwynydd am uwchgyfeirio pryder. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gyfeiriadau at wasanaethau eirioli trydydd parti a allai helpu'r cleifion i godi pryderon. Diwygiwyd y polisi fel sy'n ofynnol a rhoddwyd copi i AGIC yn fuan ar ôl yr arolygiad.

Dywedwyd wrthym y byddai unrhyw wersi a ddysgwyd o gwynion a digwyddiadau yn cael eu trafod ar lafar â'r staff os ydynt yn fach neu'n cael eu cofnodi'n ffurfiol a'u rhannu os ydynt yn fwy difrifol. Gwelsom fod gan y practis bolisi chwythu'r chwiban addas os bydd gan y staff unrhyw bryderon yr oeddent am godi.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Gwelsom fod gweithdrefnau priodol ar waith i recriwtio a sefydlu staff. Dangosodd adolygiad o gofnodion y staff bod gwiriadau cyn cyflogi priodol yn cael eu cynnal, gan gynnwys manylion adnabod, gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gwiriadau geirda.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Drwy gynllunio lefelau staffio a rheoli apwyntiadau, roedd y rheolwyr yn gallu sicrhau bod digon o staff cymwysedig ar gael i ddarparu'r gwasanaethau a gynigir ac addasu'r lefelau yn unol â'r galw ac argaeledd.

Roedd y clinig yn cynnal arfarniadau staff blynyddol ac roedd trefniadau addas ar waith i oruchwylio'r staff. Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd staff fel arfer yn cael eu cynnal bob mis, ond dywedwyd wrthym nad oeddent wedi cael eu cynnal mor aml yn ddiweddar am fod y rheolwr cofrestredig a rheolwr y clinig wedi bod ar absenoldeb mamolaeth.

Er mwyn datblygu a chynnal sgiliau a gwybodaeth y gweithlu, roedd y rheolwr cofrestredig yn monitro gofynion hyfforddiant ac yn eu trafod â'r staff yn ôl yr angen. Gwelsom lawer o dystiolaeth o hyfforddiant ychwanegol a oedd yn berthnasol i rolau a datblygiad proffesiynol y staff.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Gwelsom fod bocsys storio cardfwrdd yn rhwystro un allanfa dân.	Gallai fod risg bosibl i'r cleifion wrth ymweld â'r safle.	Gwnaethom godi'r mater hwn ar unwaith â'r rheolwr cofrestredig.	Datgomisiynwyd yr allanfa dân oherwydd nifer yr allanfeydd ychwanegol a oedd ar gael gerllaw. Tynnwyd yr holl arwyddion.
Gwelsom ddwy set ychwanegol o gyfarpar amddiffyn y llygaid a oedd wedi cracio.	Gallai fod risg bosibl i'r cleifion a/neu'r staff wrth ddefnyddio'r peiriant laser.	Gwnaethom godi'r mater hwn ar unwaith â'r rheolwr cofrestredig.	Cafodd y cyfarpar llygaid hwnnw ei waredu ar unwaith er mwyn atal unrhyw achosion anfwriadol o'i ddefnyddio.

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: LaserWise Skin and Beauty Clinic

Dyddiad yr arolygiad: 08 Ionawr 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig drefnu i'r canlynol gael ei gyflawni ar unwaith:</p> <ul style="list-style-type: none">• rhoi tystiolaeth i AGIC o'r camau a gymerwyd i ddatrys pob mater a godwyd yn yr asesiad risg tân• trefnu i bob aelod o'r staff gwblhau hyfforddiant priodol ar ddiogelwch tân• rhoi manylion i AGIC am sut mae'r clinig yn bwriadu sicrhau bod ymarferion tân yn cael eu cynnal yn rheolaidda'u	Rheoliad 26(4)(a)(c) a(d)	<p>1. Gosodiadau Drysau Tân</p> <p>Camau Gweithredu i'w Cymryd: Sicrhau y caiff yr holl ddrysau tân gofynnol eu gosod, eu bod yn cydymffurfio, ac y cânt eu cynnal yn unol â'r rheoliadau diogelwch tân cyfredol.</p> <p>Camau Gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none">• Cynnal asesiad risg tân i nodi lleoliadau lle mae angen drysau tân• Gosod drysau tân ardystiedig (FD30/FD60 yn ôl yr angen)• Gosod dyfeisiau hunan-gau a seliau mwg priodol• Labelu pob drws tân yn glir gydag arwyddion "Drws Tân - Cadwch ar Gau"	Suzanne Lazim-Fletcher	4 - 6 wythnos

		<p>hyfforddiant priodol ar ddiogelwch tân sy'n berthnasol i'w rôl.</p> <p>Camau Gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhoi hyfforddiant ar ddiogelwch tân i bob aelod o'r staff yn ystod y cyfnod sefydlu • Rhoi hyfforddiant gloywi bob blwyddyn neu yn ôl yr angen • Cynnwys hyfforddiant ar weithdrefnau gadael yr adeilad, ymateb i'r larwm, a'r defnydd o'r allanfeydd tân • Cynnal cofnodion hyfforddiant cywir ar gyfer pob aelod o'r staff • Wedi cael dyfynbrisiau, yn aros am ymateb. <p>4. Ymarferion Tân</p> <p>Camau Gweithredu i'w Cymryd: Cynnal ymarferion tân rheolaidd i brofi gweithdrefnau gadael yr adeilad a pharodrwydd y staff.</p> <p>Camau Gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynnal ymarferion tân ar gyfnodau addas (o leiaf bob blwyddyn, neu'n fwy rheolaidd yn unol â'r risg) 	<p>Suzanne Lazim-Fletcher</p>	<p>Dwywaith y flwyddyn</p>
--	--	---	-------------------------------	----------------------------

		<ul style="list-style-type: none"> • Amrywio senarios ac amseroedd ymarferion i adlewyrchu lefelau staffio gwahanol • Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cymryd rhan oni bai nad yw'n glinigol briodol • Nodi pwyntiau dysgu a rhoi gwelliannau ar waith yn dilyn ymarferion • Caiff hyn ei gofnodi yn ein cofnodlyfr ymarferion tân. 		
--	--	---	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Suzanne Lazim-Fletcher

Teitl swydd: Perchennog / Cyfarwyddwr

Dyddiad: 21/01/2026

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: LaserWise Skin and Beauty Clinic

Dyddiad yr arolygiad: 08 Ionawr 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig drwsio'r clo ar ddrws yr ystafell drin i sicrhau bod modd ei gloi o'r tu mewn pan fydd yr ystafell yn cael ei defnyddio.	Rheoliad 26	Rydym wrthi'n gosod drysau tân newydd, a bydd cloeon bawd yn cael eu rhoi ar bob drws yn y clinig.	Suzanne	Tua 4 - 6 wythnos
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddatblygu polisi cydsynio ysgrifenedig addas, yn cynnwys gweithdrefnau ar gyfer cleifion o dan 16 oed a lle nad oes gan glaf y galluedd i gydsynio a rhoi copi i AGIC pan fydd wedi'i gwblhau.	Rheoliad 9(4)	Mae hwn wedi cael ei lanlwytho i Objective Connect	Suzanne	Wedi'i gwblhau

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn cwblhau hyfforddiant perthnasol ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth.	Safon - Tegwch	Mae pob aelod o'r staff yn cwblhau'r cyrsiau perthnasol ar hyn o bryd.	Suzanne	2 - 4 wythnos
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi copi o'r Adroddiad ar Gyflwr Gosodiadau Trydanol i AGIC ar ôl iddo gael ei gwblhau.	Rheoliadau 26(2)(a) a (4)(a)	Mae gan ein landlord / Asiant Eiddo reolaeth lawn dros hyn. Rydym wedi mynd ar drywydd hyn am fod y clinig wedi'i asesu ar ddechrau mis Ionawr 2026, felly rydym yn aros am y dystysgrif.	Suzanne	Yn dibynnu ar y landlord a'r Asiant Eiddo.
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau ar y lefel briodol a rhoi copïau o'r tystysgrifau hyfforddiant i AGIC.	Rheoliad 20(2)(a)	Mae cwrs hyfforddiant wedi'i drefnu ar gyfer dydd Iau 19 Mawrth 2026.	Suzanne	19/03/2026
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y polisi diogelu yn cynnwys y manylion cyswllt diogelu priodol ar gyfer yr ardal a wasanaethir.	Rheoliad 16(1)(b) ac 16(3)(a)	Mae hyn wedi'i gwblhau.	Suzanne	Wedi'i gwblhau
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl bolisiau yn	Rheoliad 9	Mae hyn wedi'i gwblhau.	Suzanne	Wedi'i gwblhau

cynnwys proses rheoli fersiynau briodol sy'n gywir ac yn cynnwys dyddiadau dechrau ac adolygu, a sicrhau bod enw'r unigolyn sy'n gyfrifol am y polisi wedi'i nodi.				
--	--	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Suzanne Lazim-Fletcher

Swydd: Perchennog

Dyddiad: 18/02/2026